Plaid
PLAID CYMRU

Y Sandy Llais

Newyddion Oddi Wrth Eich T*im Plaid Cymru Lleol*

ACHUBER LLYN Y SANDY

Rhoddwyd caniatâd cynllunio i newid cyfeiriad Nant y Cille, sydd yn bwydo Llyn y Sandy fel rhan o'r caniatâd cynllunio i godi 450 o dai newydd ar safle Parc y Strade. Bwriedir newid llif y nant fel ei bod yn llifo yn syth i'r Afon Lliedi. Bydd y cynllun hwn yn galluogi'r datblygwyr i gynyddu nifer y tai y gellir eu codi gan na chaniateir codi tai o fewn 15 metr i unrhyw lif dŵr.

Nant y Cille yw'r llif mwyaf sydd yn bwydo ein llyn ac eto ni chafwyd asesiad digonol o effeithiau symud y llif. Mae 'na beryg y bydd dŵr y llyn yn aros yn yr unfan yn lle llifo ac mae'n fwy tebygol y bydd gwymon gwenwynllyd yn tyfu yn ystod tywydd poeth.

Mae Mari Davies a Siân Caiach, eich cynghorwyr cymuned, wedi gweithio'n galed i ddod o hyd i'r ffeithiau yma am y datblygiad oedd heb gael cyhoeddusrwydd pan roddwyd caniatâd i ddatblygu Parc y Strade. Mae nhw hefyd wedi darganfod bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynghori'r datblygwyr, Cyngor Sir Gaerfyrddin, i wneud astudiaeth lawn cyn symud y nant. Er syndod mawr ni chefnogodd y Cyngor Sir alwad yr arbenigwyr ac nid ydym yn gwybod beth fydd union effaith symud y nant.

Rheolir y Cyngor Sir gan y Blaid Lafur gyda chefnogaeth barod iawn gan y cynghorwyr 'annibynnol'. Mae'r ddwy garfan wedi gwrthwynebu ymgyrch y ddau gynghorydd cymuned i achub y llyn. Mae Siân a Mari bellach yn sefyll fel Cynghorwyr Sir. Mae nhw'n ymroi i adfer Llyn y Sandy drwy fynd â'r ymgyrch i Neuadd y Sir.
Mae eich pleidlais yn cyfri – achubwch ein llyn.
Mae Plaid Cymru yn benderfynol o amddiffyn amgylchedd Cymru. Mi wnawn ni ymladd i ddiogelu ein parciau, ein bywyd gwyllt a'n mannau hardd lleol.

Mae Eich Pleidlais Yn Cyfrif – Achuber y Llyn.

Promoted by: Plaid Cymru, Ty Bres, Llanelli SA15 1UA On behalf of: Sian Caiach,Park Farm,Cwmbach. SA15 4RD

Plaid PLAID CYMRU

Sandy Voice

NEWS FROM OUR LOCAL PLAID TEAM

SAVE SANDY LAKE

Save our lake campaign

When planning permission was given to build 450 new houses in Stradey Park, permission was also given to divert the Cille Stream that feeds Sandy Lake. The plan is to divert the stream directly into the Lliedi so that the developers can build more houses because new homes are not permitted within 15 meters of a river, drain or stream.

The Cille Stream is the biggest source that feeds our lake but no proper assessment of the effect of diverting it has been made. There is a real risk that the lake will stagnate. It will be more prone to algal blooms that can become toxic in warm weather.

Mari Davies and Siân Caiach, your local community councillors have worked hard to uncover these facts that were not publicised when planning permission was given to develop Stradey Park. They have also found that the Environment Agency advised the developers, Carmarthenshire County Council, to conduct a full study of the impact of moving the stream before they decided to do so. Amazingly, the County Council did not support the experts' warning and we do not know what the exact effect of moving the stream will be.

The County Council is currently run by the Labour Party with ready support from the 'independent' councillors. Both groups have opposed the two councillors' campaign to save our lake. Siân and Mari are now standing for election as County Councillors. They promise to save Sandy Lake by taking the fight to County Hall.

Plaid is committed to preserve the environment of Wales. We will fight to protect our parks, our wildlife and the beautiful landscapes we have locally.

Your Vote Counts. Save Our Lake

Promoted by: Plaid Cymru, Ty Bres, Llanelli SA15 1UA On behalf of: Sian Caiach,Park Farm,Cwmbach. SA15 4RD